# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Medi 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12975

# 89

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd - Gohiriwyd o 14 Medi

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1-2, 4 a 6-10. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 5. Atebwyd cwestiynau 1, 4, 8 a 10 gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Atebwyd cwestiynau 2, 6, 7 a 9 gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar ran y Gweinidog Newid Hinsawdd. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg - Gohiriwyd o 14 Medi

Dechreuodd yr eitem am 14.16

Gofynnwyd cwestiynau 1-7, 9 a 11. Tynnwyd cwestiwn 8 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 10. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Gohiriwyd tan 28 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon

## 4 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – Gohiriwyd tan 28 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon

## 5 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.03

**Atebwyd gan Weinidog yr Economi**

Hefin David (Caerffili): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newyddion diweddar bod Bearmach Cyf. ar Ystâd Ddiwydiannol Pantglas, Bedwas, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr?

**Atebwyd gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon**

Heledd Fychan (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda rhanddeiliaid lleol a chynrychiolwyr undebau ynglŷn â diogelu hawliau gweithwyr yn dilyn y cyhoeddiad diweddar ynglŷn ag allanoli gwasanaethau yng Nghanolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai?

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.22

Gwnaeth Russell George ddatganiad am – PAPYRUS Elusen Atal Hunanladdiad Ifanc – 3 thad yn codi arian er cof am eu plant sydd wedi cyflawni hunanladdiad.

Gwnaeth Natasha Asghar ddatganiad am – Diwrnod Alzheimer y Byd.

Gwnaeth Rhys ab Owen ddatganiad am – Tony Paris, un o Dri Caerdydd a gafodd eu carcharu ar gam am lofruddiaeth, yn marw yn 65 oed.

Gwnaeth Delyth Jewell ddatganiad am – Teyrnged i Eddie Butler.

Gwnaeth Elin Jones ddatganiad am – Teyrnged i Mavis Nicholson, darlledwraig arloesol.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Tlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd – Gohiriwyd o 14 Medi

Dechreuodd yr eitem am 15.31

**NDM8072** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Dlodi tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd, a osodwyd ar 18 Mai 2022.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Awst 2022.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – Ynni adnewyddadwy yng Nghymru – Gohiriwyd o 14 Medi – Tynnwyd yn ôl

Tynnwyd y cynnig yn ôl

## 9 Cynnig i gymeradwyo'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd a nodi'r adroddiad cydymffurfio ar gyfer y cyfnod 2021-22 – Gohiriwyd tan 28 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon

## 10 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Adolygiad o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 – Gohiriwyd tan 12 Hydref

Gohiriwyd yr eitem hon

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

Dechreuodd yr eitem am 16.31

**NNDM8075** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.22(i) dros dro er mwyn caniatáu i'r gwelliannau a gyflwynwyd i NDM8073 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 21 Medi 2022.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Dadl Plaid Cymru – Costau byw – Gohiriwyd o 14 Medi

Dechreuodd yr eitem am 16.32

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8073** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod y cynnydd presennol mewn biliau ynni yn anghynaladwy ac y bydd yn achosi straen ariannol a chaledi i aelwydydd, busnesau, a grwpiau cymunedol, tra bod cwmnïau tanwydd ffosil yn gwneud yr elw mwyaf erioed.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu mesurau argyfwng costau byw ehangach ar unwaith, fel:

a. haneru prisiau trenau a gosod cap ar brisiau bws;

b. gweithio gydag awdurdodau lleol i glirio rhai o'r ôl-ddyledion treth gyngor sylweddol sydd wedi cronni yn ystod cyfnod y pandemig;

c. rhewi rhent;

d. ailgyflwyno mesurau i wahardd troi allan yn y gaeaf;

e. ehangu'r cynllun prydau ysgol am ddim i blant ysgol uwchradd;

f. cynyddu'r lwfans cynhaliaeth addysgol i £45.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno ardoll ar elw ynni.

Yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â chostau byw, gan gynnwys:

a) gwarant pris ynni, sy’n rhoi cap ar gostau ynni;

b) taliadau costau byw i bobl ar fudd-daliadau incwm isel a chredydau treth gwerth £650;

c) taliad costau byw anabledd gwerth £150;

d) gostyngiadau misol mewn biliau tanwydd o fis Hydref ymlaen gwerth £400;

e) cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol i £9.50 yr awr;

f) gostyngiad yn y gyfradd tapro credyd cynhwysol;

g) rhewi’r dreth tanwydd;

h) rhewi ffi'r drwydded teledu am ddwy flynedd;

i) taliadau tanwydd gaeaf ychwanegol.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i gefnogi pobl, busnesau a'r trydydd sector i wynebu'r heriau sydd i ddod.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn credu bod Llywodraeth y DU yn methu â dirnad difrifoldeb yr argyfwng hwn, ac y byddai'n caniatáu i bobl sy'n gweithio dalu cost cap ynni yn hytrach na threthu elw digynsail cynhyrchwyr nwy ac olew.

Yn croesawu'r £1.6bn a fuddsoddir yn benodol i helpu gyda chostau byw a'r rhaglenni cyffredinol sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys:

a) ehangu Taliad Cymorth Tanwydd y Gaeaf o £200 ar gyfer 400,000 o aelwydydd y gaeaf hwn;

b) dechrau cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd o fis Medi 2022;

c) buddsoddi £51.6m yn y Gronfa Cymorth Dewisol i arbed pobl sydd mewn argyfwng ariannol difrifol;

d) £4m ar gyfer talebau tanwydd i helpu pobl sydd ar fesuryddion talu ymlaen llaw a banc tanwydd i bobl nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 25 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8073** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn credu bod y cynnydd presennol mewn biliau ynni yn anghynaladwy ac y bydd yn achosi straen ariannol a chaledi i aelwydydd, busnesau, a grwpiau cymunedol, tra bod cwmnïau tanwydd ffosil yn gwneud yr elw mwyaf erioed.

2. Yn credu bod Llywodraeth y DU yn methu â dirnad difrifoldeb yr argyfwng hwn, ac y byddai’n caniatáu i bobl sy’n gweithio dalu cost cap ynni yn hytrach na threthu elw digynsail cynhyrchwyr nwy ac olew.

3. Yn croesawu’r £1.6bn a fuddsoddir yn benodol i helpu gyda chostau byw a’r rhaglenni cyffredinol sy’n rhoi arian yn ôl ym mhocedi pobl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru y flwyddyn ariannol hon, gan gynnwys:

a) ehangu Taliad Cymorth Tanwydd y Gaeaf o £200 ar gyfer 400,000 o aelwydydd y gaeaf hwn;

b) dechrau cyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd o fis Medi 2022;

c) buddsoddi £51.6m yn y Gronfa Cymorth Dewisol i arbed pobl sydd mewn argyfwng ariannol difrifol;

d) £4m ar gyfer talebau tanwydd i helpu pobl sydd ar fesuryddion talu ymlaen llaw a banc tanwydd i bobl nad ydynt ar y prif gyflenwad nwy.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 25 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 12 Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig – Gohiriwyd tan 28 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon

## 13 Cyfnod Pleidleisio

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 17.26 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.**

Dechreuodd yr eitem am 17.32

## Crynodeb o Bleidleisiau

## 14 Dadl Fer – Gohiriwyd o 14 Medi

Dechreuodd yr eitem am 17.36

**NDM8070** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Darparu prydau ysgol am ddim i bawb: yr heriau a'r cyfleoedd.

## 15 Dadl Fer (Joel James (Canol De Cymru)) - Gohiriwyd tan 28 Medi

Gohiriwyd yr eitem hon

Daeth y cyfarfod i ben am 18.04

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Medi 2022**